# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **13 Mawrth 2018** |
| **Aelod Cabinet** | **Dyfrig Siencyn, Arweinydd** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dilwyn Williams, Prif Weithredwr** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Pwerau Trethiant Llywodraeth Cymru** |

**Y penderfyniad a geisir**

Rhoddir cyfle i'r Cabinet drafod bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno trethi newydd er mwyn ystyried a yw'n dymuno mynegi barn ar y cynigion.

**Cefndir**

1. Rhwng 6 Tachwedd 2017 a 5 Rhagfyr 2017, cynhaliodd Llywodraeth Cymru bleidlais ar y cyfryngau cymdeithasol am y rhestr fer o 4 syniad am drethi newydd i Gymru.

2. Nid yw'n hollol eglur beth oedd statws y "bleidlais cyfryngau cymdeithasol" yma ond ymddengys o'u safle we mai codi ymwybyddiaeth a cheisio barn oedd y bwriad.

3. Nid yw'n glir chwaith a oedd yna gyfle i gyrff fel ni gyflwyno barn.

4. Nodir y trethi dan sylw isod.

    - **Treth ar dir gwag** - treth newydd i gynyddu'r gost o ddal tir gwag yn ysgogiad i adeiladu cartrefi newydd.
    - **Ardoll gofal cymdeithasol** - treth i helpu i ariannu gofal cymdeithasol yng Nghymru dros yr hirdymor.
    - **Treth ar ddeunydd plastig untro** – treth newydd er mwyn newid ein hymddygiad tuag at blastig untro.
    - **Treth ar dwristiaeth** – treth er mwyn gweld a ellid codi cyfraniad bach gan ymwelwyr i helpu i gynnal gwasanaethau sy'n bwysig i ymwelwyr a'r gymuned leol.

5. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ddiweddar wedi cyhoeddi y byddant yn defnyddio'r syniad am dreth ar dir gwag i brofi pwerau Deddf Cymru, ond bydd gwaith yn parhau hefyd ar y tri syniad arall.

6. Nid yw'n glir beth y bydd hynny yn ei olygu nac ychwaith beth fyddai amserlen debygol.

7. Diddorol yw nodi yn y "bleidlais cyfryngau cymdeithasol" o'r ychydig dros fil o ymatebion a gafwyd mai dyma oedd y canlyniad.

| | **O blaid** | **Anghytuno** |
|---|---|---|
| Treth Tir gwag | 60% | 40% |
| Ardoll Gofal Cymdeithasol | 49% | 51% |
| Treth Blastig untro | 78% | 22% |
| Treth Twristiaeth | 37% | 63% |

8. Rhoddir cyfle i'r Cabinet drafod y mater er mwyn ystyried a yw'n dymuno mynegi barn ar y cynigion.

9. Yn wyneb y perygl y gallasai'r canlyniad uchod ddylanwadu ar bolisi'r Llywodraeth, ac yn wyneb y ffaith mai'r ddau fyddai'n uniongyrchol effeithio ar Lywodraeth Leol yw'r ddau sydd wedi derbyn y nifer isaf o bleidleisiau o blaid, dichon y bydd y Cabinet yn dymuno ystyried hyn yn benodol.

---

**Sylwadau'r Swyddogion Statudol**

**Swyddog Monitro**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Pennaeth Cyllid**

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi holi barn awdurdodau lleol, nac hyd yn oed tynnu sylw'r Cyngor at fodolaeth ei "pleidlais ar lein" cyn iddo gau yn Rhagfyr. Holais y gwas sifil cyfrifol yn Rhagfyr, ac atebodd yn Ionawr, gan gadarnhau roedd y "bleidlais ar-lein ddim ond yn anffurfiol a'u bod o hyd yn croesawu syniadau". Felly, byddai cyfle i'r Cabinet neu gyrff eraill i fynegi barn drwy anfon at -FinancialReformMailbox@gov.wales . Rwy'n croesawu'r bwriad i gynnal trafodaeth ar y mater.